# ***Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddigwyddiad beirniadol a arsylwyd.***

## Cyflwyniad

Yn yr adroddiad yma bydd trafodaeth am achos critigol o dan sylw o fewn ysgol Lôn Las, sydd yn ceisio gweithredu cwricwlwm cenedlaethol newydd Cymru. Bydd cyd-destun yr ysgol yn rhoi digon o wybodaeth amdano ba fath o ysgol yw hi.

Mae crynodeb fanwl am y dulliau a modelau gwahanol sydd yn ddefnyddiol am arsylwi, yn trafod y manteision ac anfanteision o'r' dulliau yma cyn sôn am ba dechneg a defnyddiwyd wrth arsylwi'r ysgol. Wrth arsylwi'r ysgol bydd nodiadau manwl yn cael ei chyfleu er mwyn dadansoddi'r achos critigol a sut mae hyn yn cysylltu efo Pedwar Diben Donaldson sydd yn bwysig o fewn fframwaith addysg Cymru.

Mae prif bwyntiau'r adroddiad yn cael ei chefnogi gan lenyddiaeth a ffynonellau gan arbenigwyr o'i feysydd, yn dangos cysylltiadau a thystiolaeth o'r gwaith ysgrifenedig. Mae'r adolygiad llenyddiaeth yma yn dadansoddi 2 prif thema a chodwyd yn yr achos critigol er mwyn hunanwerthuso a thrafod gwahanol gynlluniau i greu camau addas tuag at osgoi a gwrthod yr achos yma digwydd eto.

## Arsylwi

*Cyd-destun yr ysgol*

Mae'r ysgol o dan arsylwi yn ysgol arloesi sy'n gweithio efo Llywodraeth Cymru a nifer o ysgolion tu fewn rhwydwaith i geisio profi datblygiadau dysgu wedi'i phwysleisio yn y cwricwlwm Newydd (2022). Mae'r ysgol yn un cyfrwng Gymraeg wedi lleoli'n drefol yn Sir Abertawe efo 482 o ddisgyblion rhwng yr oedrannau o 3 i 11. Mae'r nifer o ddisgyblion yn llenwi 17 o ddosbarthu ac allan o'r disgyblion yma mae 70 ohonyn nhw yn rhan o'r meithrin rhan amser sydd wedi rhannu mewn i ddau ddosbarth, ac un dosbarth oed cymysg.

Un o'r agweddau pwysicaf o'r ysgol yma yw ei amrywiaeth a sut mae ei ystadegau yn cymharu â'r ystadegau cenedlaethol. Yn gyntaf gwelwn fod 22% o ddisgyblion yr ysgol yn dioddef o anghenion dysgu ychwanegol sy'n un canran yn fwy na chanran cenedlaethol llywodraeth Cymru (21%), a nifer llai efo anghenion dysgu arbennig. Er mae ysgol gyfrwng Gymraeg yw'r ysgol o dan arsylwad, dim ond 10% sydd yn dod o gartrefi cefndir Gymraeg, yn pwysleisio'r pwysigrwydd mae'r ysgol gorfod rhoi ar addysgu llafar a llenyddiaeth Gymraeg, gyda nifer llai na'r canran hon yn dod o deuluoedd lleiafrifol ethnig. Yn cyfeirio nôl i ganrannau cenedlaethol Cymru, dylai 18% o blant mewn ysgolion cael yr hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, ond yn ôl adroddiad Estyn welwn dim ond 7% sy'n cael yr hawl yma, nifer bron tair faint yn llai. (Estyn , 2018)

Cyn dechrau arsylwi'r ysgol yma roedd yn bwysig i edrych ar adroddiad BERA a'i phwyslais a rheolau ar ymchwil academaidd a hefyd cyfrifoldeb yr unigolyn/myfyrwyr. Dyma bum egwyddor bwysig:

1. Mae gwyddoniaeth gymdeithasol yn sylfaenol i gymdeithas ddemocrataidd, a dylai cynnwys gwahanol fuddiannau, gwerthoedd, gwerthoedd, cyllidwyr, dulliau a safbwyntiau.

2. Dylai gwyddoniaeth gymdeithasol parchu preifatrwydd, ymreolaeth, amrywiaeth, gwerthoedd ac urddas unigolion, grwpiau a chymunedau.

3. Dylai gwyddoniaeth gymdeithasol cael ei chynnal gydag uniondeb trwyddi, gan ddefnyddio'r dulliau mwyaf priodol am ddiben yr ymchwil.

4. Dylai pob gwyddonwyr cymdeithasol/myfyrwyr weithredu ac ymddwyn o ran ei gyfrifoldebau cymdeithasol gan gynnal a lledaenu ei hymchwil.

5. Anelu'r wyddoniaeth gymdeithasol at sicrhau'r budd mwyaf a lleihau niwed.

'The Association believes that all educational research should be conducted within an ethic of respect for: the person; knowledge; democratic values; the quality of educational research; and academic freedom. Trust is a further essential element within the relationship between researcher and researched, as is the expectation that researchers will accept responsibility for their actions.' - (BERA 2018)

## Methodoleg

Dosbarth blwyddyn 2 efo 30 o ddisgyblion oedd o dan arsylwad, mae hwn yn rhoi syniad o'r nifer o blant oedd yn cael ei addysgu ac yn creu darlun o'r awyrgylch â sŵn yn y dosbarth. Mae'n bwysig cofio a thrafod y dulliau a thechnegau gwahanol a defnyddiwyd yn y cyfnod arsylwi, a sut cafodd y wybodaeth berthnasol cael ei chofnodi. Diffiniad MARSHALL and ROSSMAN (1989) o arsylwi yw:

"the systematic description of events, behaviors, and artifacts in the social setting chosen for study" (p.79). Observations enable the researcher to describe existing situations using the five senses, providing a "written photograph" of the situation under study (ERLANDSON, HARRIS, SKIPPER, & ALLEN, 1993). DeMUNCK and SOBO (1998) describe participant observation as the primary method used by anthropologists doing fieldwork. Fieldwork involves "active looking, improving memory, informal interviewing, writing detailed field notes, and perhaps most importantly, patience" (DeWALT & DeWALT, 2002, p.vii)'. (Kawulich, 2005)

Mae ymchwil arbenigwyr addysg yn sôn am sawl dull gwahanol gallwch ddefnyddio er mwyn arsylwi, efo Pansuk a Sullivan (1998, 330). yn cofnodi bod natur y wers yn gymhleth a gall ei chael ei ddadansoddi o safleoedd gwahanol. (Edgar Krull, 2010) Ar ôl darllen yma roedd yn bwysig i ymchwilio'r mathau o arsylwi ar gael:

Eilam and Poyas (2006) investigated ways to promote student teachers' awareness of the characteristics of classroom complexity using video recordings, and Inoue (2009) pointed out in his study the importance of rehearsing instructional explanations before pre-service teachers start practice teaching. (Edgar Krull, 2010). Gwelwn fod Eilam a Poyas yn edrych ar recordio tystiolaeth ar ffurf ddigidol fel un strategaeth arsylwi ond mae sawl ar gael, fel llyfr cofnodi, cardiau indecs, nodiadau gludiog, labelai adlynol. (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) (Carys Jennings, n.d.) Ond rydym yn mynd i ffocysu ar ddulliau mwy eang.

Defnyddiwyd ddau wahanol ddull o arsylwi:

1. Arsylwi Strwythurol neu Di-gyfranogol

2. Arsylwi Cyfranogol

Arsylwi strwythurol/di-gyfranogol yw'r dull o gasglu data pwysig trwy beidio cyfrannu tuag at weithgareddau'r wers, trwy wneud hyn mae'r arsyllwr gallu gwylio o bellter beth sy'n digwydd tu fewn a thu allan y dosbarth, yn sylwi ar weithredoedd y plant o fewn tasgau a gwersi. Yn wahanol i'r dull strwythurol mae'r dull cyfrannol yn brofiad arbennig i'r arsyllwr cymryd rhan mewn addysgu'r plant wrth gasglu gwybodaeth am deimladau ac agweddau'r plant tuag at ysgol a dysgu. Mae'r ddau ddull yn helpu casglu digon o wybodaeth ond gwybodaeth wahanol cefnogi pwrpas yr arsylwi sef dod yn gyfarwydd efo trefn a strwythur y dosbarth yn ogystal â'r cymeriadau tu fewn y dosbarth, yn cofnodi eu hymddygiad, gallu, ac ymdrech tuag at dasgau ffocws, heriau, gweithgareddau ymarferol a chorfforol â'r cyfleoedd wedi'i chynnig gan yr ysgol. Wrth gasglu'r wybodaeth ganlynol byddwn ni'n dadansoddi'r digwyddiadau er mwyn darganfod achos critigol tu fewn neu du allan y dosbarth. Cyn dewis defnyddio p'un o'r dulliau bydd yn fwy defnyddio rhaid edrych ar fanteision ac anfanteision cyntaf. (Kawulich, 2005)

| | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| Arsylwi Stwythurol/Di-gyfranogol | • Gallwn ffocysu ar safleoedd a lleoliad yn y dosbarth er mwyn cael trosolwg o bawb wrth iddyn nhw orffen gwaith a heriau o fewn a thu allan y dosbarth.<br>• Ymwybodol o'r grwpiau cymdeithasu o fewn y dosbarth, pa gyfeillion sy'n chwarae a sgwrsio efo'i gilydd.<br>• Hawdd i weld pwy sy'n crwydro o amgylch y dosbarth ac yn osgoi gwaith. | • Nid ydy'n bosib cael dealltwriaeth neu gasglu gwybodaeth ar ffurf bersonol neu emosiynol.<br>• Anghyfarwydd a theimladau'r plant tuag at yr athro, gwaith a rheolau.<br>• Er bod y myfyrwyr/ymchwylwyr yn osgoi cyfrannu mae ei phresenoldeb dal yn effeithio ar ymddygiad plant dal ac felly yn annilysu ar y data. |
| Arsylwi Cyfranogol | • Gallu cyfathrebu efo'r disgyblion ar lefel proffesiynol ac emosiynol.<br>• Darganfod teimladau, gallu ac agweddau plant tuag at ysgol.<br>• Yn cryfhau ei'n ddealltwriaeth ar sut mae'r plant yn meddwl.<br>• Ar ôl amser bydd y plant yn ymddwyn fel petai'r ymwelwyr ddim yna. Yn ymlacio ac yn gyfforddus efo'i phresenoldeb ar ôl dod yn gyfarwydd efo'r arsylwyr. | • Plant neu'r athro yn tynnu sylw'r arsylwr wrth ofyn am help neu gymorth mewn heriau a thasgau. Arsylwr methu ffocysu ar weddill y dosbarth a beth sy'n mynd ymlaen.<br>• Anodd I gymryd nodiadau ysgrifenedig wrth gyfrannu a gwneud ymarferion.<br>• Anodd i ddadansoddi pwy sy'n ffrindiau efo pwy neu pwy sy'n cyfathrebu gan fod plant yn gweithio tu fewn ei grwpiau penodol. Yn dibynnu ar beth mae'r plant yn dweud, sydd fel arfer dim yn gywir er mwyn defnyddio fel tystiolaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Gallu ffocysu ar adrannau gwahanol. | |

Wrth gymharu’r ddau ddull roedd yn amlwg bod angen defnyddio’r ddau ohonyn nhw, a chreu strwythur hyblyg i gasglu data a thystiolaeth fwy torfol. Y bwriad oedd cyrraedd y dosbarth cyn cofrestru i ddod yn gyfarwydd efo awyrgylch ac amgylchedd y dosbarth, y rheolau gosodwyd gan yr ysgol a’r athro (polisïau a chynlluniau), trefn y dydd â thargedau tymor bir a thymor hir.

Dechreuodd y plant cyrraedd yr ysgol yn rhoi eu bagiau a chot ar fachyn cyn eistedd ar y mat am gofrestru, fel nodwyd yn y tabl uwchben roedd y plant yn ymddwyn yn wahanol i arfer, yn gyffrous bod rhywun newydd yn y dosbarth. Parhaodd y drefn a’r gwersi fel arfer, gyda’r athrawes yn rheoli ymddygiad y plant ac yn esbonio targed y dydd i’r plant fel bod pob un o’r disgyblion yn deall beth oedd angen cwblhau erbyn diwedd y dydd. Yn y wers gyntaf gweithredwyd y dull arsylwi di-gyfranogol er mwyn gweld sut oedd y disgyblion yn gweithio ac yn cyfrannu tuag at ei gwaith mewn ffurf unigol, pâr neu grŵp, roedd hyn yn rhoi fwy o drosolwg ar ba dechnegau mae’r athro yn ffafrio er mwyn addysgu a rheoli’r dosbarth.

Roedd yn bwysig arsylwi fel hyn gyntaf i sefydlu syniad eang o sut mae’r dosbarth yn gweithio ac yn rhedeg yn enwedig unigolion. Trwy arsylwi o bellter roedd yn hawdd defnyddio Sosiogram Robin Banerjee er mwyn creu'r cysylltiadau cyfathrebu ac unrhyw gysylltiadau rhwng ymddygiad/agwedd y plant a pwy ydyn nhw’n dewis cyfathrebu efo. I greu fwy o ddata i lofnodi gallwn dargedu unigolyn, un sydd efo cymeriad cryf o fewn y dosbarth fel bod digon o wybodaeth i gofnodi.

Am yr arbrofiad cymdeithasol yma y disgybl o dan sylw oedd ‘plentyn H’, disgybl efo cymeriad cryf ond ymddygiad gwael sydd ar y rhestr am anghenion dysgu ychwanegol fel ADHD ac awtistiaeth. Yn ychwanegol roedd gallu llafar a llenyddiaeth Gymraeg plentyn H ar lefel disgybl dosbarth derbyn, yn methu cyfathrebu neu ddeall yr iaith. Ar wahân i blentyn H roedd yna ddau ddisgybl arall, plentyn G a L a oedd yn ymddwyn islaw i’r safonau disgwyliadol ac yn cael ei effeithio gan ddisgybl H, sef y rheswm am bâm penderfynwyd targedu ef. – ‘Most teachers and parents would readily agree that peers play an important role in children’s lives. Children interact with their peers on a regular basis, and they are also the individuals with whom a child forms friendships. At school, friendship promotes shared activities, both academic and non-academic.’ (Silberling, 2006)

[Gweld Ffigwr 1,2,3,4,9,10 am fwy o wybodaeth]

Ar ôl amser cinio newidiwyd i ddull arsylwi cyfranogol er mwyn cymryd rhan mewn dysgu'r plant, yn dysgu fwy am y grwpiau o ran gallu, sut oedden nhw'n gweithio a pa heriau a osodwyd. Prinder o amser oedd ar gael i greu digon o nodiadau wrth gyfrannu tuag at y gweithgareddau ond roedd yna gyfle i gysylltu'r syniadau credwyd o'r arsylwi di-gyfrannol e.e.. pam oedd y disgyblion targed yn crwydro o'i waith? Nai llai bod y gwaith yn rhwydd, rhy galed, dim diddordeb, neu'r ffaith nid oedd unrhyw un oedden nhw eisiau cyfathrebu/gweithio gydag yn ei grŵp.

*Beth yw achos critigol?*

Achos critigol, term eang sy'n dibynnu ar safbwynt yr athro a sut mae yn bersonol neu'n berthnasol iddynt. Ni allwn ddweud bod achosion fel disgyblion yn gwneud sŵn pan mae'r athrawes yn addysgu'r achos critigol oherwydd maen nhw'n achosion rheolaidd sydd yn digwydd o ddydd i ddydd, fel yr un disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr bob dydd. Rhaid I achos critigol fod yn ddigwyddiad annisgwyl, fel dywed gan Brookfield - "A critical incident is any unplanned and unanticipated event that occurs during class, outside class or during a teachers career but is 'vividly remembered' (Brookfield 1990) sy'n cyfeirio nôl i'r syniad bod yr achos gorfod bod yn gritigol i'r athro o safbwynt ei hunain. Cefnogir Tripp y dyfyniad canlynol wrth ddweud, – "To take something as a critical incident is a value judgment we make, and the basis of that judgment is a significance we attach to the meaning of the incident… critical incidents, however, are not all dramatic or obvious: they are mostly straight forward accounts of very common place events that occur I professional practice" (Tripp – Critical Incidents 1993) dangoswyd hon mae'r athro neu'r arsylwyr sy'n dewis difrifoldeb yr achos o'i phrofiad personol ac yn gwneud y dewis fod o'n hachos critigol. (Joshi, January, 2018)[1]

Mae rhai pobl yn cymharu achos critigol i achos astudiaeth. Ond mae hyn yn wahanol wrth i achos critigol fod yn ddigwyddiad personol mae'r athro yn gweld o ddifrif, ond y diffiniad o achos astudiaeth yw:

Digwyddiad arbennig o rywbeth gallwn ddefnyddio neu ddadansoddi er mwyn darlunio traethawd ymchwil neu egwyddorion, neu gasgliad o ddata neu ymchwil mewn i ddatblygiad o berson/ddisgybl, grŵp neu ddigwyddiad dros amser. (Cambridge, 1995)

## Digwyddiad beirniadol yn gysylltiedig â Phedwar Diben Donaldson

*Pedwar Diben Donaldson*

Yn yr adran yma bydd esboniad clir o'r achos critigol arsylwyd yn yr ysgol a hefyd ei chysylltiad efo o leiaf un o'r pedwar diben. Os nad ydych yn gyfarwydd efo'r pedwar diben dyma grynodeb o bob un:

- Dysgwyr uchelgeisiol a galluog (Barod I ddysgu trwy weddill ei fywydau) e.e. Gosod ei hunain safonau uchel ac yn mwynhau a chwilio am heriau, yn cwestiynu a mwynhau datrys problemau.
- Cyfranwyr creadigol a fentrus (Barod I gymryd rhan bwrpasol yn ei fywyd a'i waith) e.e. Meddwl yn greadigol i ail-fframio a datrys problemau, cysylltu ag ymgeisio ei gwybodaeth a sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion.
- Dinasyddion gwybodus a moesegol (Barod i fod yn ddinasyddion o Gymru a gweddill y Byd) e.e. Deall ac ystyried yr effaith o'i gweithredoedd wrth wneud penderfyniadau a gweithredai, â pharchu'r anghenion a hawliau o bobl, fel aelod o gymdeithas amrywiol.
- Unigolion iach a hyderus (Barod i arwain bywydau boddhaus fel aelodau o gymdeithas) e.e. cymryd rhan mewn addysg gorfforol, yn adeiladu ar les meddyliol ac emosiynol trwy ddatblygu hyder, hydwythedd ac empathi. (Donaldson, 2015)

Credai Donaldson bod y pedwar diben yma yn angenrheidiol er lles a dyfodol plant ysgol, a bod angen sicrhau'r gweithrediad ohonyn nhw mewn polisïau a strwythur yr ysgol. Trwy ymchwil ei hun roedd Donaldson yn pwysleisio'r pwysigrwydd o weithredu'r rhain mewn i gwricwlwm yr ysgol er mwyn sicrhau bod plant yn cael yr un profiadau a chyfleoedd mewn ysgol, er mwyn datblygu a chyrraedd safonau'r pedwar diben.

*Achos Critigol a sut mae'n gysylltu*

Yn yr ysgol drefol arsylwyd cododd un neu ddau achos critigol ond un wnaeth sefyll allan yn benodol, mae yna sawl rheswm am ddewis yr achos yma ond un o'r prif resymau yw cyfraniad plentyn H yn y sefyllfa.

Yn yr ail wers roedd gan flwyddyn 1 a 2 y fraint o fynychu cyflwyniad gan y frigâd dân, cyfle anarferol oedd hwn i'r plant ac felly yn amlwg i weld ymddygiad ac agwedd y plant newid wrth iddyn nhw gael gwybod bod yna ymwelwyr.

Wrth i'r plant eistedd ar lawr y gampfa yn dawel roedd plentyn H yn dal i greu sŵn ac yn siarad efo'i hunain i ddenu sylw'r athrawon, ar ôl i'r athrawon cymryd rheolaeth ar blentyn H dechreuodd y fenyw dân ei gyflwyniad, yn syth ymharodd plentyn H yn gorfodi'r ddynes dân i ail-ddechrau. Symudodd yr athrawes plentyn H i eistedd yn agosach iddi hi er mwyn cadw golwg arno, gweithiodd am funud ond barhaodd y disgybl i dorri ar draws y cyfweliad nes tynnu plentyn H o'r gampfa i waith darllen yn hafan blwyddyn 1 a 2 er lles y disgyblion arall. Yn hytrach na gweiddi na chosbi ceisiodd yr athrawes siarad â'r disgybl fel petai ar yr un lefel, yn trin fel oedolyn yn hytrach na phlentyn, yn atgyfnerthu mewn ffyrdd positif. [Ffigwr 1, 8]

Mae'r achos critigol yma yn dangos bod ymddygiad gwael gan H ac ychwanegol i hynny bod polisïau a strategaethau'r ysgol er mwyn oresgyn y canlyniad o'r ymharaeth. Rhaid cyfeirio nôl i analluogrwydd 'H' efo'r iaith Gymraeg ac ystyried bod y cyflwyniad brigâd dân ar gyfrwng Gymraeg er mae ysgol drefol Gymraeg yw hi ac wedyn meddwl am sut all hyn effeithio'r disgybl.

Efo'r esboniad canlynol am yr achos critigol dan sylw, rhaid edrych a dadansoddi i weld sut all gysylltu efo'r pedwar diben, oherwydd mae'r achos critigol efo canfyddiad negyddol bydd y cysylltiad wedi'i chreu ar y sail bod y disgybl methu cyrraedd neu dangos arwyddion y diben. Gallwn ddadlau bod ymddygiad gwael 'H' a chynnwys yr achos critigol yn dangos sut mae disgybl 'H' yn cael trafferthion ac ymddygiad gwael ac felly yn colli mas ar brofiad allweddol all datblygu 'H' mewn i ddisgybl uchelgeisiol a galluog a dinesydd gwybodus a moesegol wrth fwydo gwybodaeth bwysig iddo.

Mae disgybl 'H' yn dangos diffyg gallu a diddordeb mewn addysg bod well ganddo chwarae gemau trwy'r dydd sydd yn effeithio arno'i ddatblygiad i fod yn ddisgybl uchelgeisiol a galluog. Yn ychwanegol i hon mae'n tangyflawni ac yn gwrthod/osgoi cyrraedd ei photensial cyflawn a fydd yn parhau i dangyflawni os nad ydy o allu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau neu amgylchiadau mewn Cymraeg neu Saesneg.

# Adolygiad o lenyddiaeth

Trwy arsylwi wyth gwers o fewn ddau ddiwrnod roedd lot a data a sylwadau wedi'i chofnodi i geisio darganfod themâu gwahanol er mwyn dadansoddi, wrth wneud hon byddaf yn edrych ar y syniadau a golygfeydd gwahanol gan awduron ac arbenigwyr addysgol.Ymddygiaeth

## Ymddygiaeth

Un o'r themâu perthnasol yw ymddygiadaeth sef 'behaviourism'. Dywed rhai arbenigwyr ymddygiadaeth mae ymddygiaeth yw'r cynnyrch o ddyluniad ac yn cael ei chreu a datblygu gan ein hamgylchedd, gydag ymddygiad unigolyn yn cael ei phenderfynu gan eraill ac nid gan yr unigolyn.

'By carefully shaping desirable behaviour, morality and information is learned. Learners will acquire and remember responses that lead to satisfying aftereffects. Repetition of a meaningful connection results in learning. If the student is ready for the connection, learning is enhanced; if not, learning is inhibited. Motivation to learn is the satisfying aftereffect, or reinforcement.' (Cohen, 1999)

Yn syml mae Cohen yn sôn am sut all ymddygiad cael ei effeithio trwy greu cysylltiad personol rhwng y disgybl a beth mae'n dysgu, yn awgrymu bod ymddygiad plant tuag at ddysgu wrth greu'r cysylltiad yma. Pwysleisiwyd mai agwedd well tuag at ddysgu yn datblygu sgiliau moesegol a gwybodus sy'n cysylltu efo un o bedwar diben Donaldson, yn esbonio mae diffyg diddordeb y plentyn tuag at beth mae'n gwneud yn creu'r ymddygiad yma sy'n gwrthod iddyn nhw dyfu i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus. Mae (Cohen, 1999) yn ychwanegu i'r pwynt yn sôn am un o'r tair 'isms' sef determinism, elementism (analysis) a empiricism:

'Behavourism is linked with empiricism, which stresses scientific information and observation, rather than subjective or metaphysical realities… Change in behaviour must be observable; internal thought processes are not considered.' (Cohen, 1999)

Trwy dalu sylw ar empiricsm rydym yn dadansoddi'r ymddygiad, sut mae'r plentyn yn ymateb a beth maen nhw'n dweud ar lafar, ni allwn ddadansoddi ei meddyliadau o ddydd i ddydd, yn gorfodi arbenigwyr a chyfranogwyr i edrych ar sut mae'r sefyllfa a'r ysgogiadau yn yr awyrgylch wedi cychwyn y camymddwyn.

"The Behaviorist is… not against anything or for anything until it has been tried out and established." (Watson, 2017) Mae hyn yn cefnogi'r syniadau bod dim rhagfarn efo plant ifanc, yn methu cysylltu ei ymddygiad i'r cydsyniad o dda neu ddrwg.

“To know what is ‘good’ or ‘bad’ for human beings is… beyond us at the present. [But if you] decide that the human organism should behave in [such and such a] way, you must arrange situations of such and such kinds.” (Watson, 2017)

Er bod plant methu gwahaniaethu yma eto dydi hyn ddim yn esgusodi ymddygiad gwael, mae angen gweithredu strwythurau a strategaethau er mwyn cywiro'r ymddygiad yma i addysgu’r plant beth yw rheolaeth, a sut fydden nhw’n cael ei chosbi neu wobrwyo am ei weithredoedd.

Mae’r ddwy ffynhonnell uchod yn sôn am sut mae ymddygiad yn cysylltu efo ysgogiad, ymddygiad positif a negyddol. Dywed (Llywodraeth Cymru, 2012), er mwyn deall ymddygiad rhaid ystyried pum model: Biolegol, ymddygiadol, gwybyddol, systemig a seicodynamig. Ni allwn weithredu a chynnal unrhyw strategaeth heb ystyried yr achos felly rhaid trafod.

*Biolegol*

“Children have a tendency to interact with the environmental influences around them and this interaction informs the behaviour… Nature and nurture are involved in our development, although when dealing with behaviour attention needs to be paid to creating a positive environment and experiences to promote good behaviour.” (Llywodraeth Cymru, 2012)

Wrth ddarllen y gosodiad uchod mae’n amlwg bod y model biolegol yn trafod sut mae’r amgylchedd yn ffurfio rhan o ymddygiad plentyn yn creu’r syniad bod ymddygiad gwael unigolyn yn ffurfio o’i chysylltiadau personol. Gallwn edrych ar awyrgylch agored y plentyn â pham mae’n bwysig edrych ar sut mae plant ifanc yn dysgu sut i wahaniaethu beth sy’n gywir neu’n anghywir. Rhaid I’r farn yma cael ei ffurfio trwy reolau, gwobrau a chosbau, yn gyffredinol mae plant yn gwario rhan fwyaf o’i fywydau yn ysgol neu gartref, felly rhain yw’r prif ddylanwadau ar agwedd ac ymddygiad plant o ran beth maen nhw’n gweld a chlywed. Mae gwaith (Cohen, 1999) yn cytuno efo gosodiad (Llywodraeth Cymru, 2012) wrth ddweud yn syml: “Learning occurs as a result of responses to stumili in the environment that are reinforced by adults and others, as well as from feedback from actions and objects.”

*Ymddygiadol*

Nesaf rhaid edrych ar y model ymddygiadol a’r ddau cyflyru gwahanol mae’n trafod, cyflyru clasigol a chyflyru gweithredol. Mae cyflyru clasigol yn egluro sut mae hybiau yn cysylltu efo ymddygiad yn debyg i’r ffordd esboniwyd gan (Cohen, 1999).

“A child feels happy and excited on a Friday afternoon as this is the time the whole class has ‘Fun Friday’.” (Llywodraeth Cymru, 2012) Gan fod diddordeb efo’r plentyn mae’n fwy tebygol

bod ymddygiad positif, nid yw'r plentyn am golli'r cyfle i gymryd rhan mewn rhywbeth mae ef/hi yn mwynhau.

Yn wahanol i gyflyru clasigol mae cyflyru gweithredol yn sôn am wobrwyo a chosbi yn dibynnu ar agwedd yr unigolyn a sut mae'r ymddygiad hefyd yn ailadrodd.

*Gwybyddol*

Model yn ffocysu ar gortecs yr ymennydd a sut mae hyn yn effeithio ar sut mae unigolyn yn meddwl ar sail resymegol a'r ffordd maen nhw'n ymateb. "If an infant is constantly being subjected to negative situations, for example experiencing domestic violence and/or neglect, then the connections that form the cortex to help deal with situations in a rational way are limited." (Llywodraeth Cymru, 2012) Gallwn ddadansoddi'r dyfyniad yma wrth sôn am sut mae profiadau cartrefol unigolyn yn cael yr effaith fwyaf ar ymddygiad plentyn wrth iddyn nhw fod yn agored i'r profiadau negyddol neu bositif. Pan mae plentyn sy'n agored i'r awyrgylch yma yn wynebu sefyllfa gwan ni fydd meddyliadau rhesymegol yn cael ei chreu Bydd canlyniad positif yn cael ei chreu gan awyrgylch positif yr un ffordd all canlyniadau negyddol ffurfio gan awyrgylch negyddol. Mae hyn y cysylltu nôl i'r model biolegol a'r syniadau mae'n cyflwyno. Prif bwrpas y model yw rhoi cymorth i'r plentyn ateb i achosion ar sail resymegol.

*Systemig*

Mae'r model systemig yn cynnwys rhannau o'r modelau biolegol, ymddygiadol a gwybyddol wrth i'r model systemig edrych ar yr ardaloedd gwahanol sy'n effeithio'r plentyn. Mae'r systemau yma yn cynnwys:

- Teulu
- Cymuned
- Clwbiau tu allan I'r ysgol
- Ysgol
- Ffrindiau
- Ffrindiau Dosbarth

Mae (Llywodraeth Cymru, 2012) yn trafod sut mae un o'r systemau yma yn gallu effeithio ar systemau eraill, gall hon fod mewn ffyrdd positif neu negyddol. "The behaviour the child experiences at home, for example shouting, violence and/or aggressiveness, will not work in

a school context which can cause problems for the child." Mae cysylltiad mawr efo'r model biolegol gan fod y systemau yma yn rhan o awyrgylch y plentyn tu fewn a thu allan i'r ysgol.

*Psychodynamic*

Yn ffocysu ar ddeall ac ymyrryd ymddygiad trwy ddatod profiadau ymwybodol ac anymwybodol i helpu'r plant delio gyda'r broblem.

## Cynhwysiad o fewn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Addysg sydd yn cynnwys pawb yw cynhwysiad, lle mae pawb yn dysgu mewn ysgolion prif ffrydio, pobl anabl, ddi-anabl a phobl efo anghenion dysgu ychwanegol. Rhaid I ysgolion addasu ei systemau a chreu polisïau er mwyn cynnwys pobl anabl er bod rhai ohonyn nhw angen addasiadau a chyngor er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm cenedlaethol.

I wneud cynhwysiad yn ymarferol mae pawb yn cyd-weithio i roi teimladau o groesawiad a werth i ddisgyblion yn ogystal â'r cymorth i ddatblygu talentau ac i gyrraedd ei bwriadau. Mae cynhwysiad ymarferol yn cael ei ddiffinio fel agweddau a dulliau gweithio i gynnwys pob dysgwyr mewn addysg prif ffrydio. (The Alliance For Inclusive Education, 2019)

"Difficulties in learning often arise from an unsuitable environment, inappropriate groupings of pupils, inflexible teaching styles, or inaccessible curriculum materials." (DfES, 2004) Mae addysg cynhwysiad yn ceisio osgoi'r problemau yma fel bod pawb yn cael yr un cyfleoedd. Cytunwyd y gosodiadau uchod, yn esbonio'r un neges bod rhaid creu awyrgylch ac addysg sydd yn cefnogi pob unigolyn.

Ar adroddiad Estyn Ysgol [redacted] mai esboniad o'r ffordd maen nhw'n effeithiol efo cynhwysiad, yn derbyn canlyniad 'Da' yn yr arsylwad. Dywed yn yr adroddiad:

"Robust systems for tracking and monitoring pupils' progress ensure that staff identify pupils and specific groups who need additional support at an early stage. They provide effective support for these pupils and monitor the effect of support regularly and purposefully. All pupils with additional learning needs have an individual education plan, which includes suitable and measurable targets. Pupils and parents contribute purposefully to setting and reviewing targets. As a result, most of these pupils make good progress. The school provides interventions that support pupils with emotional and social needs effectively. This ensures that they gain confidence and enables them to play a full part in school life." (Estyn , 2018)

Gallwn ddadansoddi'r paragraff yma gan uwcholeio prif bwyntiau a chysylltu nôl i'r gosodiadau uwchben. Mae'r ysgol yn ceisio darganfod ADY mewn disgyblion mor gynnar a gallant nhw er mwyn gweld pwy sydd angen y cymorth yma ac i roi'r cyngor fel bod y disgyblion yn derbyn yr un profiadau addysg. Mae'r dyfyniad yn trafod y systemau mae gan Ysgol [redacted] mewn lle i roi'r cymorth yma ac felly yn gwthio ac yn defnyddio'r cynhwysiad ymarferol mae'r 'Alliance for Inclusive Education' yn gweithio'n galed i bwysleisio.

Gallwn edrych ar sawl math o anableddau er mwyn ystyried pa fath o bobl bydd angen y cymorth er mwyn cael ei chynnwys o fewn y cwricwlwm. Dyma rhai o'r anableddau/anghenion gwahanol all atal i rai disgyblion derbyn y cyfleoedd yma:

- Cyflwr Meddygol
- Anghenion Dysgu Penodol e.e Dyslecsia, dyspracsia
- Salwch Meddwl
- Anhawster Cyfathrebu e.e Iaith a lleferydd, mud dethol
- Anabledd Cudd
- Nam Synhwyraidd
- Awtistiaeth
- AGDS/ADCG – Anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd

(Sian Brooks, 2019)

Wrth ddarllen y rhestr uchod rhaid edrych ar yr anabledd a gweld pa fath o sefyllfaoedd all amharu ar ei addysg a pha gamau all ysgolion a sefydliadau cymryd er mwyn osgoi'r sefyllfaoedd yma. Mae enghreifftiau da o sut mae ysgolion yn gallu helpu:

- "Jenny has dyslexia. So that she can study a book along with the class the teacher asks her to listen to the audio book rather than reading the text."
- "James is deaf and communicates using sign language. Instead of taking him out of his lessons to have a separate lesson with a sign language teacher, his teachers, teaching assistants and the pupils learn to sign too in order to communicate with him." - (The Alliance For Inclusive Education, 2019)

Yn syml gallwn weld bod anghenion dysgu yn effeithio ar fywydau dydd i ddydd disgyblion mewn addysg a'r angen i gyd-weithio i leihau'r arwahanu ac integreiddio, fel bod pawb yn derbyn cynhwysiad ymarferol.

Nid yw ysgolion arbennig yn union am blant/ddisgyblion anabl yn cyrfu fel cynhwysiad ond yn cael ei adnabod fel gwahanu, yn debyg i unedau arwahanu mewn ysgolion prif ffrydio. Os nad yw'r ysgol prif ffrydio yn cynnig digon o gymorth i'r plant/ddisgyblion gwir cael y cyfle i dderbyn yr un addysg mae hon yn cael ei adnabod fel integreiddio wrth i'r plant cael y profiadau ysgol ond nid y cwricwlwm cenedlaethol. (The Alliance For Inclusive Education, 2019)

Er mwyn cefnogi'r addysgu yma mae (Spooner, 2011) (Glazzard, 2010) yn sôn am egwyddorion ymarfer da yn dweud bod angen sefydlu cyfleoedd dysgu addas sydd hefyd yn heriol, sydd yn ymateb i anghenion dysgu amrywiol disgyblion. Hefyd maent yn pwysleisio goresgyn rhwystrau rhag dysgu ac asesu unigolyn yn ogystal â grwpiau. (Siân Brooks, 2019) Mae'r gosodiad yma yn cytuno efo'r syniadau sydd wedi'i awgrymu gan 'The Alliance for Inclusive Education.' A sut dylai ysgolion a sefydliadau gweithredu nhw.

## Adfyfyrio/Gwerthuso A Chamau Nesaf

*Adfyfyrio/Gwerthuso*

Yn yr adran yma bydd trafodaeth am bwrpas adfyfyrio/gwerthuso critigol, pa fodelau a thechnegau fydd yn berthnasol i ddefnyddio a'r camau nesaf bydd o werth ddefnyddio i wellhau a datblygu ein gwaith proffesiynol a personol.

Yn Saesneg 'Critically Reflective Practice' yw'r proses o holiad lle mae'r myfyrwyr ac ymarferwyr yn ceisio darganfod ag ymchwilio'r rhagdybiau a'r syniadau sydd yn fframio ac adeiladu ar y ffordd rydym yn gweithio. Mae ymarferwyr adfyfyrio critigol yn ymchwilio'r syniadau yma trwy'r amser, trwy edrych ac astudio trwy lensys wahanol, pedwar i fod yn gywir. Rydyn yn galw'r fethodoleg ymchwilio 'Pedwar Lens Brookfield' sef 'Brookfields' Four Lenses'. Er mwyn ystyried a deall y pedair lens yma rhaid edrych arnyn nhw'n unigol cyntaf:

1. **Y lens o'i hunangofiannau fel dysgwyr o hunanwerthusiad ymarferol.** – Mae hon yn meddwl bod yr ymarferwyr yn edrych ar a gwerthuso casgliadau ei hunain gan fod yn un o'r ffynonellau fwyaf pwysig o fewnwelediad mae gan yr ymarferwyr mynediad i. Un o'r codymau allwn drafod am lens hunangofiannau yw'r syniad bod y lens yn argraffiadol ac yn oddrychol, efo'n farn a theimladau personol yn effeithio ar sut rydym yn beirniadu gwaith ein hun. Gall manylion a chymeriadau fod yn wahanol mewn digwyddiadau ond all y tensiwn fod yn union yr un peth, a pha rannau o'n hymarfer rydym yn teimlo'n ymrwymedig tuag at.
2. **Y lens o lygaid dysgwyr.** – Rhaid ystyried sut mae'r dysgwyr yn gweld chi fel ymarferwyr dysgu a ydyn nhw'n gweld, clywed a deall y pethau rydyn ni eisiau nhw. Mae'n bwysig deall bod plant a phobl yn cael canfyddiadau gwahanol mewn rhai amgylchiadau e.e gall rhai pobl weld cellwair yn rhywbeth doniol ond all rhai unigolion cymryd o ddifri, neu pan fydd un athro yn gweld eiliad o ysbrydoliaeth sydd yn arwain ar dangiad efo pwrpas, all rhywun arall weld hyn fel eiliad anghyson ac annherfynol. Caniatáu'r model yma i addysgu mewn ffordd fwy ymatebol i'r dysgwyr.
3. **Y lens o ganfyddiad cydweithwyr.** – Wrth gymryd rhan mewn trafodiathau efo'n cyd-weithwyr rydyn ni wedi gweld gweledigaeth nhw o ddigwyddiadau mewn ffordd brofiadol, gyda'r cyd-weithwyr yn gweithio fel gwrthrychau, y dadansoddi gweithredoedd personol mewn ffordd ni allwn sylweddoli heb y sylwadau pwysig yma. Mae'r lens yma yn adlewyrchu, ail-fframio ac adeiladu ar ddamcaniaethau'r ymarferwyr wrth i ni beri syndod ar bethau all awgrymu darlleniadau newydd ar rai problemau. Mae hyn yn hanfodol a ydy ymarferwyr am gyrraedd eglurder critigol.
4. **Y lens o lenyddiaeth ymchwil, athronyddol a damcaniaethol. –** Yn darparu nifer o safbwyntiau yn gysylltiedig ar sefyllfaoedd cyfarwydd. Fel arfer mae ymarferwyr ac athrawon yn gweld digwyddiadau negyddol o fewn addysg fel canlyniad ac adlewyrchiad o'i ymarfer wael addysgu. Wrth adolygu'r llenyddiaeth yma gall rhai athrawon osgoi fod yn ddioddefwyr ei hun wrth iddyn nhw ystyried a deall mae'r canlyniadau yma cael ei effeithio gan brosesau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol ac nid nhw sy'n gyfrifol am bopeth sydd yn digwydd.

Yn ychwanegol i'r pedwar lens mae'n bwysig edrych ar y camau mwy syml er mwyn deall hunanwerthusiad sef; egluro, teimlo, dadansoddi, rhesymu, camu nôl, hunan-critigol, archwilio opsiynau, cysylltu i'r achos.

(Brookfield, 1998)

*Camau Nesaf*

Rhaid cyfeirio nôl i'r achos critigol o dan sylw ac edrych ar y prif bwyntiau a nodweddion er mwyn dewis strategaethau gallwn ymgeisio er mwyn gwella ymddygiad plentyn H a gwrthod y digwyddiad ailadrodd ei hun. Wrth edrych ar brif nodweddion yr achos critigol mae'n amlwg bod sawl strategaeth ddefnyddiol all herio'r disgybl i ymddwyn yn well ac yn agosáu ei agwedd i bedwar diben Donaldson, dau yn benodol, dysgwyr uchelgeisiol a galluog â dinasyddion gwybodus a moesegol. Prif ffocws yr adran yma yw ymddygiaeth ac nid ADY gan fod plentyn H heb gael diagnosis am ADY, mae'n well cyfeirio at yr hun rydym yn bendant yn gwybod amdano. Dyma dair strategaeth ddefnyddiol all datblygu ymddygiad disgybl H:

**1.** Cynllun Ymddygiad
**2.** Gwobrwyo ymddygiad positif/cosbi ymddygiad gwael.
**3.** Atgyfnerthiad Positif/Canmol

Gall y tair strategaeth yma cyd-weithio gyda'i gilydd, gan strwythuro'r tair i greu un cynllun.

Er mwyn herio i ddisgybl H ymddwyn yn well mewn unrhyw sefyllfa nid yn unig yn y cyflwyniad gallwn greu cynllun ymddygiad dyddiol ac wythnosol fel bod cynllun bir a hir dymor. Mae'n bwysig bod disgybl H yn helpu creu'r cynllun yma efo'r ymarferwyr fel bod ef yn deall y cynllun ac yn gallu gwahaniaethu agweddau da a drwg. Gall cynllun tic fod yn ddefnyddiol, gall y plentyn ar ymarferwyr nodi pum targed iddo'i hun am y dydd a pum targed am yr wythnos, yn derbyn tic nesaf i'r targedai cyrhaeddwyd.

I wneud yn siŵr bod plentyn H yn dilyn y cynllun yma rhaid bod rhyw wobr er mwyn sbarduno'r plentyn i ymddwyn mewn ffordd aeddfed. Yn cyfeirio nôl i'r model ymddygiadol o fewn ymdaget gallwn weld sut all y ddwy ffurf cyflyru bod yn ddefnyddiol i bwysleisio ymddygiad da.

Wrth ddefnyddio hybiau fel sydd wedi awgrymu o fewn cyflyru clasigol gallwn ddarganfod rhywbeth mae disgybl H efo diddordeb mewn ac yn defnyddio hon fel gwobr diwedd y dydd neu wythnosol i herio'r gwellhad mewn ymddygiad e.e. os mae plentyn H yn hoff iawn o chwarae yn yr ardaloedd tu allan yn lle gwneud gwaith heriol dosbarth gallwn wobrwyo gan adael iddo gael amser rhydd o 20 munud ar ddiwedd y dydd os ydy e'n haeddu/derbyn pum tic. Am wobr wythnosol gall disgybl H chwarae rôl bwysig neu ddewis prif nodweddion y wers olaf os ydy hi'n cyd-fynd efo pwrpas y wers. Bydd cyflyru gweithredol yn cyd-fynd a'r syniad yma wrth i'r disgybl colli allan ar wobrwyo oherwydd diffyg gwrando, neu os yw'r ymddygiad yn ofnadwy yn cael cosbau gwaeth na hyn, ond derbyn y gwobrwyau dewiswyd efo ymddygiad da. (Llywodraeth Cymru, 2012)

Bydd atgyfnerthiad positif yn ddefnyddiol iawn ar ddiwedd y dydd neu'r wythnos gan fod yr ymarferwyr a'r disgybl cael trafodaeth am yr holl waith da mae plentyn H wedi cyfleu. Bydd yn fwy defnyddiol i'r disgybl wrth i'r athro uwcholeuo unrhyw bwyntiau negyddol ond ceisio dweud sut all y disgybl gwella a newid y pwyntiau negyddol mewn ffyrdd positif, yn cyfeirio nôl at yr agweddau da mae disgybl H yn dangos o ddydd i ddydd, bydd hyn yn wneud disgybl H yn ymwybodol o'r hyn mae wedi gwneud yn anghywir ond yn rhoi teimladau o werth a hyder wrth iddo gael canmol. (Skinner, 1938)

Yn obeithiol bydd y parhad a datblygiad o system fel hyn yn trawsnewid ymddygiad y plentyn yn barhaol dros dymor hir.

## Casgliad

Rwy'n credu bod yr adroddiad yma yn ffocysu ar y prif bwyntiau a ofynnwyd yn strwythur yr aseiniad. Roedd y strategaethau arsylwi a defnyddiwyd yn strategaethau awgrymwyd gan arbenigwyr a sefydliadau addysg fel Llywodraeth Cymru. Mae'r strategaethau a'r yn esbonio'r dulliau gwahanol i ddefnyddio wrth arsylwi fel ymarferwyr rhag beirniadol. Mae'r gwaith yn cysylltu efo'r cwricwlwm newydd a phedwar diben Donaldson wrth edrych ar y camau nesaf pwysig i wneud yn siŵr bydd y ffactorau yma yn cael ei weithredu yn y dyfodol.

Mae gan Lywodraeth Cymru dogfen yn egluro safonau proffesiynol addysgu ac arwain. Yn y ddogfen yma mae pum prif fodel sydd yn pwysleisio'r sgiliau, gwybodaeth ag ymddygiad dylai pob ymarferwyr dilyn:

Addysgeg – Lle mae'r athro trwy'r amser yn cael y canlyniad gorau am ddisgyblion trwy wella perfformiad addysgu, a dylanwadu ac ymestyn ar allu disgyblion.

Cydweithio – Cymryd pob cyfle i weithio'n effeithiol gyda phob partner mewn addysg er mwyn ymestyn effeithrwydd proffesiynol.

Arweinyddiaeth – Er mwyn cyrraedd uchelgeisiau addysg Cymru mae ymarferwyr proffesiynol yn ymarfer arweinyddiaeth trwy'r amser yn cefnogi'r ymdrechion o bobl eraill tu fewn a thu allan yr ysgol.

Arloesedd – Ymarferwyr yn symud addysgeg ymlaen trwy fesur datblygiadau dulliau a thechnegau gwahanol.

Dysgu Proffesiynol – Yn dangos sut mae bod yn ymarferwyr yn defnyddio dulliau agored ac adlewyrchol i herio a chefnogi addysgu proffesiynol i ddatblygu addysgeg trwy ddatblygu, sgiliau, dealltwriaeth a gwybodaeth ei hun.

(Llywodraeth Cymru, 2018)

Yn fy marn i rwyf wedi gweithio mewn ffordd broffesiynol yn dilyn y cyfarwyddiadau uchod tu fewn yr ysgol, ac yn cynnwys yr adroddiad yma, fel ymarferwyr rhaid i ni arwain gan esiampl a cheisio i fod y gorau gallwn ni wrth ddilyn Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.

Nifer o eiriau: 6000

## Cyfeirnodau


Brookfield, S., 1998. Critically Reflective Practice. *The Journal of Continuing Education in the Health Proffesions,* Volume 18, pp. 198-204.

Cambridge, 1995. *Cambridge Advanced Learner's Dictionary.* s.l.:s.n.

Carys Jennings, N. R. D. S., n.d. *Beth Weli Di? - Arsylwi.* s.l., s.n.

Cohen, L. M., 1999. *Philosiphical Perspectives in Education - Related Theories of Learning,* s.l.: s.n.

DfES, 2004. Removing Barriers to Achievemet - The Governments Strategy for SEN. In: s.l.:s.n., p. 28.

Donaldson, G., 2015. *Successful Futures.* s.l.:s.n.

Edgar Krull, K. O. &. E. P., 2010. Promoting Student teachers' lesson analysis and observation skills by using Gagnes model of an instructional unit. *Journal of Education for Teaching,* 36(2), p. 197.

Estyn , 2018. *A report on Ysgol Gynradd Gymraeg Lon Las,* s.l.: s.n.

Glazzard, J. H. A. N. A. N. L. &. S. J., 2010. *Teaching Primary Special Educational Needs.* Exeter: Learning Matters Ltd..

Joshi, K. R., January, 2018. Critical Incidents for Teacher's Professional Development. *Journal of NELTA Surkhet ,* Volume Vol. 5, pp. 82,93.

Kawulich, B. B., 2005. Participant Observation as a Data Collection Method. 6(2).

Llywodraeth Cymru, 2012. *Practical approaches to behaviour management in the classroom.* s.l.:Crown.

Llywodraeth Cymru, 2018. *An Introduction to the professional standards for teaching and leadership.* s.l.:Crown Copyright.

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008. *Observing Children.* Cardiff: s.n.

Sian Brooks, N. D. N. R., 2019. *Pwy ydw i'n dysgu? Anghenion Dysgu Ychwanegol,* s.l.: s.n.

Silberling, B. P. L. a. J., 2006. Using Sociograms to Identify Social Status in the Classroom. In: California Association of School Psychologists: s.n., p. 57.

Skinner, B. F., 1938. *The Behavior of organisms.* New York: Appleton Centuy Crofts.

Spooner, W., 2011. *The SEN Handbook for Trainee Teachers, NQTs and Teaching Assistants..* s.l.:Abingdon: Routledge.

The Alliance For Inclusive Education, 2019. s.l.: s.n. https://www.allfie.org.uk/definitions/what-is-inclusive-education/

Watson, J. B., 2017. Behaviorism. 42(1), p. 20.

## Atotiadau

(Ffigwr 1)

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

### NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

| |
|---|
| Dyddiad: 25/09/19 |
| Manylion y wers: Gwers 2<br>Cyfweliad brigâd dân yn y neuadd yn dysgu'r plant cyfnod Sylfaen am cynnydd tân. |
| **Diwylliant ar lawr dosbarth**<br>Pawb yn gwrando yn astud I'r fenyw dân wrth iddi hi rhoi'r cyfweliad, ond roedd plenty H yn ymharu trwy'r amswr ac yn parhau I wneud hyn nes bod yr athro yn gwahaniaethu disgybl H o'r cyflwyniad fel bod pawb gallu gwrando yn astud a chanolbwyntio. |
| **Amcanion**<br>Pwrpas clir i addysgu'r disgyblion am y perygl mae tân yn darparu. Beth dylen nhw gwneud os ydyn nhw'n darganfod cynnwr tân. |
| **Cyfarwyddyd**<br>Myfyrwyr yn glir am beidio siarad neu dorri ar ddraws yn ystod y cyfweliad. |
| **Mynediad a her**<br>Roedd pob disgybl yn dilyn y wers yn hawdd, roedd yn anodd i ystyried er mai cyfweliad oedd hi, ond wrth i'r dynes tân holi cwestiynau gallwn weld oedd y plant yn deal wrth roi'r atebion cywir. |
| **Asesu**<br>Wnaeth yr athro asesu gallu y disgyblion ynglyn a'r gyfweliad wrth holi cwestiynau i'r plant wrth iddyn nhw fynd nôl i'r ddosbarth. |

(Ffigwr 2)

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

## NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016)

**Dyddiad:** 25/9/19

**Manylion y wers:** Gwers 3

4 grŵp, 1 grŵp yn gwneud tasg ffocws gyda'r athrawes pan bod weddill y dosbarth yn cwblhau heriau a gosodwyd ar ddechrau'r wythnos. Angen cwblhau 2 darn o waith erbyn diwedd y dydd.

**Diwylliant ar lawr dosbarth**
(Ydy'r dysgwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

Gwrando'n astud eto. Tymed bach o ymhoniaeth gan y tair bechgyn gwaethaf y dosbarth, wedi ymhoni ar y gwaith tasg ffocws. Wedi anfon dau i ardaloedd rhifedd tu allan.

**Amcanion**
(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

I gwblhau y dasg dechreuon nhw ar ddechrau'r dydd ~~neu i ddechrau un newydd yn ardal~~ ~~arfer~~ gwahanol, e.e. newid o rifedd i gymhwysedd digidol.

**Cyfarwyddyd**
(Ydy'r dysgwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Gwahanol ardaloedd

Gliniadwron. - ymchwilio gwybodaeth.

Yn gwybod pob tasg cyn dechrau.

Angen i esbonio eto i rai o'r grwp llai galluog.

**Mynediad a her**
(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

Pob myfyrwyr yn dilyn y wers i raddau, rhai plant wedi crwydro gormod a wedi cael ei chosbi am ddiffyg gwaith, ond wedi cael her cyn hynny. Gallu cwblhau y tasgau'n syml.

(Ffigwr 3)

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

| Asesu |
| --- |
| Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth dysgwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?<br>- Marcio a sylwadau<br>- holi cwestiynau<br>- dewis enwau oft y cofrestr.<br>- Sgwrsio + gwaith grŵp |
| **Manylebau / Achosion Beirniadol**<br>Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?<br>Darllen ~~llyfr~~ ar y diwedd } gweithio ar dreigladau'r plant.<br>Canu cân<br>Anfon ~~plentyn~~ Plant gah i'r hafan i wellhau darllen lefel is. |

(Ffigwr 4)

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

## NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016)

| |
|---|
| Dyddiad: 02/10/19 |
| Manylion y wers: Gwers 1<br>Tasg ffocws – Dweud yr amser (Grwp Plentyn H).<br>Gorffen gwaith thema – Fformiwla 1.<br>Gweithio efo'r rhai llai gallwog. |
| **Diwylliant ar lawr dosbarth**<br>(Ydy'r dysgwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)<br>Plentyn H a G yn ymharu. Pawb yn ceisio gwrando a deall. Pawb yn gyfarwydd am beth oedd angen cwblhau. |
| **Amcanion**<br>(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)<br>I gallu dod yn gyfarwydd a dweud yr amser er mwyn bod yn dinasyddion a phobl parchus a gallwog. |
| **Cyfarwyddyd**<br>(Ydy'r dysgwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)<br>Bwrdd tasg ffocws<br>Hafan BL. 1 a 2<br>Gliniaduron |
| **Mynediad a her**<br>(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)<br>Roedd y grŵp llai gallwog a'r plant efo ymddygiad wael yn gwneud y tasg ffocws felly roedd pawb yn gallu gwneud ei gwaith yn iawn heb ymharraeth ac roedd y rhai llai gallwog yn cael y her oedd angen. |

(Ffigwr 5)

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

**Asesu**
Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth dysgwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Edrych ar waith canlynol.
Holi Cwestiynau
Lolipop.
Rhoi cwestiwn efo sawl ateb.
Defnydd o adnoddau i'r plant cyflwyno'u hatebion.

**Manylebau / Achosion Beirniadol**
Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

~~Rhoed~~ Roedd y wers wedi mynd fel oedd yr athrawes eisiau iddi hi fynd. Ond roedd angen ailesbonio i rai ddisgyblion, roedd hyn ~~yn Sbon~~ ar Sgil ~~o anghofio~~ o'r plant yn anghofio rhai o'r brif nodweddion y heiau, nid yn canlyniad o'r plant yma ddim yn gwrando.

(Ffigwr 6)

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

## NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016)

**Dyddiad:** 02/10/19

**Manylion y wers:** Gwers 3
Grŵp ffocws – Cynllunio arbrawf gwyddonol ar greu car cyflym. Rhai yn mynd i gemau darllen a chwaraeon.

**Diwylliant ar lawr dosbarth**
(Ydy'r dysgwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

Plant yn canolbwyntio ar y gyfarwyddiadau, creu car wedi dal sylw lot o blant y dosbarth.

**Amcanion**
(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

Ymchwil – ChD a LI — gwyddoniaeth
Creadigrwydd — Rhifedd.
gwaith tîm/grŵp

**Cyfarwyddyd**
(Ydy'r dysgwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Gliniaduron, Dim adnoddau creadigol, gwers cynllunio.

**Mynediad a her**
(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

~~[illegible]~~. Roedd pob plentyn yn gallu deall cyfarwyddiadau i raddau. Nid oedd y plant canolig a llai galluog yn gallu rhoi'r cyfrinair i fewn i'r gliniaduron yn gywir ~~[illegible]~~ gan bod dim dealltwriaeth o brif lythrennau, a dim dealltwriaeth pan fod y llythrennau a rifau yn newid i ddotiau – wedi arafu cyflymder y wers.

(Ffigwr 7)

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

**Asesu**

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth dysgwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Gofyn cwestiwn achos nhw dros yn yr wythnos i weld os mae nhw wedi dysgu a chofio rhesymau. Wedyn yn datblygu trwy gydol y sesiwn.

**Manylebau / Achosion Beirniadol**

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Sut mae plant methu adnabod prif llythrennau ar allweddellau. Methu deall pam mae'r llythrennau yn newid i ddotiau.

(Ffigwr 8)

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau Education and Humanities

# Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)
## *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

**Dyddiad/*Date*:** 25/09/19

**Digwyddiad critigol (Ffocws)/*Critical incident (focus)*:** Ymlyn Cyfweliad.

| Profiad/ *Experience* | |
|---|---|
| Teimladau/ *Feelings* *Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?* *"What are your feelings regarding the experience?"* | Teimladau positif. Dim byd negyddol am y profiad, ~~wedi teimlo~~ diddordeb cryf am yr amser cyfan. Hapus iawn. Ondroedd teimlad o fraw pan nad oedd y plentyn yn gwrando. |
| Cofio a Deall/ *Remember and Understand* *"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"* *"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"* | Roedd plentyn H yn ymharu ar gyfweliad o'r brigad dan ac roedd ddim yn gwrando ar yr athrawes. Nid yw'r plentyn yn siarad neu ddeall gymraeg ar lefel B1.2 ond lefel y derbyn ac felly yn ymharu oherwydd mae wedi diflasu wrth methu deall. Gorfod cael ei cerdded allan i wneud gwaith arall. |
| Gwerthuso a dadansoddi/ *Evaluate and analyse* *"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"* *"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"* | Bod yr amharu yn cael ei ddelio efo yn yr rhyn ffordd yn cadw'r plant i ffocysu ar yr ymweliad, ac bod fe gallu gwneud gwaith i ddatblygu ei sgiliau. |
| Casgliadau a chamau gweithredu/ *Conclusions and actions* *"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"* *"Beth y gellid ei wneud nesaf?"* *"What are your possible solutions to the issue identified?"* *"What could be done next?"* | Falle cynhorthwydd unigol i drafod a chyfarthrebu yn gymraeg a saesneg efo, gallu ymdopi a rhwystro ymddygiad gwael ychydig. |
| Y profiad newydd / *Transformed experience* | |

(Ffigwr 9)

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David
Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

# Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)
## *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

**Dyddiad/*Date*:** 02/10/19

**Digwyddiad critigol (Ffocws)/*Critical incident (focus):***

| Profiad/ *Experience* | |
|---|---|
| Teimladau/<br>*Feelings*<br>*Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?*<br>*"What are your feelings regarding the experience?"* | Profiad Da. Plant wedi ymlacio ~~ar y~~ ~~mae~~ erbyn gwers 3. |
| Cofio a Deall/<br>*Remember and Understand*<br>*"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"*<br>*"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"* | Nad oedd y plant gallu ~~gwneud~~ dechrau'r tasg ChD ~~y~~ chwydd roedden nhw methu defnyddio cyfrinair yn gywir. |
| Gwerthuso a dadansoddi/<br>*Evaluate and analyse*<br>*"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"*<br>*"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"* | Cadw popeth yr un fath roedd popeth yn arbennig ond am ddealltwriaeth y plant am gyfrinair. |
| Casgliadau a chamau gweithredu/<br>*Conclusions and actions*<br>*"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"*<br>*"Beth y gellid ei wneud nesaf?"*<br>*"What are your possible solutions to the issue identified?"*<br>*"What could be done next?"* | Esbonio sut i deipio ~~cyfrinair~~ cyfrinair mewn i gliniadur. |
| Y profiad newydd / *Transformed experience* | |

(Ffigwr 10)

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau Education and Humanities

## Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)
## *Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model*

**Dyddiad/*Date*:** 02/10/19

**Digwyddiad critigol (Ffocws)/*Critical incident (focus)*:** Ymham.

| Profiad/ *Experience* | |
|---|---|
| Teimladau/ *Feelings* Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? *"What are your feelings regarding the experience?"* | Profiad da, wedi arsylwi a dysgu yn dda ac yn weld sut mae'r wers yn mynd o ddydd i ddydd. |
| Cofio a Deall/ *Remember and Understand* *"Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?"* *"Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"* | Plentyn H a G yn ymham, yn gweiddi ~~ac~~ ymddwyn. Pawb methu dywed beth oedd yn digwydd. ~~Ei~~ Athrawes yn gwahanu'r ddau. Anfon H tu allan. |
| Gwerthuso a dadansoddi/ *Evaluate and analyse* *"Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"* *"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"* | Gwahaniaethu'r ddisgyblion, anfon nhw allan i'r dosbarth, neu chosbi. |
| Casgliadau a chamau gweithredu/ *Conclusions and actions* *"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"* *"Beth y gellid ei wneud nesaf?"* *"What are your possible solutions to the issue identified?"* *"What could be done next?"* | Cael siart ymddygiad, os ydy hi'n parhau, anfon i ystafell y pen athro. |
| Y profiad newydd / *Transformed experience* | |